


# PYTHEFNOS MASNACH DEG 2021

## CWIS YR HINSAWDD I YSGOLION UWCHRADD

*Faint rydych yn ei wybod am argyfwng yr hinsawdd a Masnach Deg? Mae'r cwis hwn yn ffordd dda o gael eich myfyrwyr i feddwl am effaith argyfwng yr hinsawdd ar ffermwyr a gweithwyr tramor. Dylech ei ddefnyddio fel gweithgaredd ar ei ben ei hun neu fel man cychwyn ar gyfer gwers lawn ar yr argyfwng hinsawdd a Masnach Deg <https://schools.fairtrade.org.uk/resource/fairtrade-and-the-climate-crisis/>.*

## ATEBION Y CWIS

1. Pa gyfandir sydd fwyaf agored i niwed oherwydd yr argyfwng hinsawdd? **Affrica**

2. Sawl rhywogaeth anifeiliaid a phlanhigion sydd bellach dan fygythiad difodiant oherwydd yr argyfwng hinsawdd? **Miliwn**

3. Enwch ddau gynnyrch Masnach Deg sydd mewn perygl oherwydd yr argyfwng hinsawdd. **Siocled, bananas neu goffi**

4. Os na fydd unrhyw gamau gweithredu'n cael eu cymryd, bydd llawer o'r rhanbarthau tyfu coco'n rhy gynnes i dyfu coco - mae hynny'n golygu dim mwy o siocled. Ym mha flwyddyn y bydd hyn yn digwydd os na fyddwn yn cymryd camau gweithredu? **2050**

5. Faint o bobl o'r Traeth Ifori sydd â'r un ôl-troed carbon ag un unigolyn yn y DU? **21**

6. Enwch un ffordd y mae Masnach Deg yn cefnogi ffermwyr i fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd.
   - **Mae Masnach Deg yn darparu incwm uwch i helpu ffermwyr i ymateb i argyfyngau'r hinsawdd**
   - **Mae Masnach Deg yn cefnogi ffermwyr i ddiogelu bioamrywiaeth**
   - **Mae Masnach Deg yn hyfforddi ffermwyr i ymgymryd ag arferion ffermio sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd**

7. Faint o ffermwyr a gweithwyr yn y byd sy'n dibynnu ar gynhyrchu coffi? **25 miliwn**

8. Sut gallwch gefnogi ffermwyr a gweithwyr tramor i ymdopi â heriau argyfwng yr hinsawdd? **Dewis Masnach Deg!**